# Pwerau Stopio a Chwilio 2: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg?

## Archwiliad ar Heddlu De Cymru

September 2015

© HMIC 2015

ISBN: 978-1-78246-849-3

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

# Cynnwys

**Cyflwyniad ..... 3**

Methodoleg ..... 3

**Rhan 1 - Canfyddiadau ynghylch argymhellion a wnaed yn adroddiad 2013 HMIC, Pwerau stopio a chwilio: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg? ..... 5**

Argymhelliad 1 o 2013 ..... 5

Argymhelliad 2 o 2013 ..... 6

Argymhelliad 3 o 2013 ..... 8

Argymhelliad 4 o 2013 ..... 10

Argymhelliad 5 o 2013 ..... 111

Argymhelliad 6 o 2013 ..... 122

Argymhelliad 7 o 2013 ..... 133

Argymhelliad 8 o 2013 ..... 144

Argymhelliad 9 o 2013 ..... 15

Argymhelliad 10 o 2013 ..... 166

Casgliadau ar gyfer Rhan 1 ..... 16

**Rhan 2 - Pa mor effeithiol a theg mae Heddlu De Cymru'n defnyddio adran 163 Deddf Traffig Ffyrdd 1988? ..... 199**

Pwerau i stopio cerbydau ..... 199

Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn â defnyddio adran 163 Deddf Traffig Ffyrdd 1988 ..... 20

Pa mor effeithiol a theg mae swyddogion cymorth cymunedol yr Heddlu'n defnyddio eu pwerau i chwilio am ac ymafael mewn alcohol a thybaco..... 211

Casgliadau ar gyfer Rhan 2 ..... 222

**Rhan 3 - Chwiliadau'n cynnwys tynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig ..... 233**

Casgliadau ar gyfer Rhan 3 ..... 255

**Cyflwyniad**

Yn 2013, cyhoeddodd HMIC ei adroddiad, Pwerau Stopio a Chwilio: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg? Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai go brin roedd pwerau stopio a chwilio'n cael eu targedu ar droseddau blaenoriaethol mewn ardaloedd neilltuol a mai ond ychydig o ddealltwriaeth oedd ymhlith lluoedd ynghylch sut y dylid defnyddio'r pwerau'n fwyaf effeithiol a theg er mwyn cwtogi ar droseddu.

Gwnaeth HMIC ddeg argymhelliad yn adroddiad 2013, a gwnaeth ymrwymiad i asesu'r cynnydd a wnaed gan luoedd a'r Coleg Plismona wrth gynnal y camau gweithredu a argymhellwyd 18 mis yn ddiweddarach.

Ar ben hynny, yn 2014, comisiynodd Yr Ysgrifennydd Cartref HMIC i:

- adolygu pwerau eraill y gall yr heddlu eu defnyddio i stopio pobl, megis adran 163 Deddf Traffig Ffyrdd 1988, er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol a theg;
- darparu dadansoddiad o sut mae lluoedd yng Nghymru a Lloegr yn cymharu ag awdurdodaethau tramor, o ran y pwerau sydd ar gael a sut maent yn cael eu defnyddio ill dau; ac
- archwilio'r defnydd o bwerau chwilio sy'n golygu tynnu mwy na dillad allanol unigolyn, gan gynnwys chwiliadau tynnu dillad, er mwyn nodi a yw'r chwiliadau hyn yn gyfreithlon, angenrheidiol a phriodol.

Yn 2015, fel rhan o'r adolygiad o gynnydd o 2013 a'r adolygiadau a osodwyd gan Yr Ysgrifennydd Cartref, roedd yn ofynnol i'r holl luoedd gynnal hunan-asesiad ac, yn ychwanegol i hynny, cynhaliodd HMIC waith maes dwfn mewn naw llu. Heddlu De Cymru oedd un o'r lluoedd hynny. Cyhoeddwyd yr adroddiad cenedlaethol Pwerau Stopio a Chwilio: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg?[1] ar 24 Mawrth 2015.

Cynhwysir ein canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru mewn cysylltiad â'r argymhellion a wnaed yn 2013 yn Rhan 1 yr adroddiad hwn.

Cynhwysir ein harchwiliad o'r defnydd o bwerau i stopio pobl (heblaw am bwerau penodol i stopio a chwilio), a'r defnydd o bwerau stopio a chwilio sy'n golygu tynnu mwy na dillad allanol, yn rhannau 2 a 3 yr adroddiad hwn.

[1] Pwerau Stopio a Chwilio: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg? 2015, HMIC,Llundain. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

## Methodoleg

Fel rhan o'r archwiliad hwn, roedd yn ofynnol i bob un o 43 o luoedd y Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gwblhau hunan-asesiad o'u cynnydd yn ôl argymhellion 2013. Yn ogystal â hyn, fe gyflwynon nhw ddogfennau cefnogol yn cynnwys polisïau ac adroddiadau perthnasol.

Yn Ionawr 2015, cynhaliwyd gwaith maes gennym yn Heddlu De Cymru ac wyth llu arall lle gwnaethom gynnal:

- cyfweliadau gyda chynrychiolwyr y gymuned;
- cyfweliadau gydag uwch-reolwyr;
- grwpiau ffocws gyda chyfanswm o 50 o ringyllod ac arolygyddion gweithredol;
- grwpiau ffocws gyda chyfanswm o 100 o gwnstabliaid a PCSOs gweithredol; a
- 237 o wiriadau gwybodaeth.[2]

Er mwyn dilysu a chryfhau ein canfyddiadau, buom yn ymweliad â gorsafoedd heddlu lle siaradon ni â swyddogion mewn unedau cudd-wybodaeth, unedau ymchwilio, timau ymateb, timau cymdogaeth a dalfeydd. Buom yn arsylwi ar sesiynau briffio er mwyn gweld yr wybodaeth mae swyddogion yn ei chael cyn mynd allan ar batrôl a buom yn mynychu cyfarfodydd rheoli er mwyn gweld sut oedd adnoddau'n cael eu hadleoli a'u rheoli.

[2] Prawf byr o bum cwestiwn ar weithredu Codau Ymarfer PACE, Cod A.

# Rhan 1 - Canfyddiadau ynghylch argymhellion a wnaed yn adroddiad 2013 HMIC, Pwerau stopio a chwilio: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg?[3]

Mae'r adran hon yn cyflwyno ein canfyddiadau o'r hunan-asesiad a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru a'r dystiolaeth a gasglwyd gan waith maes yn y llu.

## Argymhelliad 1 o 2013

> Dylai prif gwnstabliaid a'r Coleg Plismona sefydlu, yn yr Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer stopio a chwilio, manyleb glir o'r hyn sy'n golygu ymarfer effeithiol a theg o bwerau stopio a chwilio, a chanllawiau yn ei gylch. Dylai hyn gydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

**Seiliau ar gyfer argymhelliad 1**

Yn ein harchwiliad yn 2013 canfuwyd, gydag ond ychydig o eithriadau, nad oedd lluoedd yn gallu arddangos pa mor effeithiol a theg fu eu defnydd o bwerau stopio a chwilio. Roedd lluoedd yn aneglur ynghylch beth oedd effeithiol a theg yn ei olygu yng nghyd-destun achlysuron stopio a chwilio, ac roedd ond ychydig o dystiolaeth bod swyddogion yn cael cyfarwyddyd neu hyfforddiant i gynorthwyo eu dealltwriaeth.

**Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn ag argymhelliad 1**

Er gwaethaf yr absenoldeb o gynnydd ar ddatblygu ymarfer proffesiynol awdurdodedig, mae sawl llu wedi gwneud ymdrechion i ddiffinio achlysuron effeithiol a theg o stopio a chwilio ac wedi darparu canllawiau a hyfforddiant i'w swyddogion.

Roedd gan Heddlu De Cymru bolisi ffurfiol i gyfarwyddo swyddogion ynghylch eu defnydd o bwerau stopio a chwilio. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y polisi'n cael ei adolygu.

Mae'r polisi'n datgan bod rhaid i'r pwerau gael eu defnyddio'n 'gyfreithlon, yn deg, yn gyfrifol, gyda pharch at bobl, heb wahaniaethu anghyfreithlon ac yn unol â gofynion deddfwriaethol'.

Ynglŷn â defnydd effeithiol a theg o'r pwerau, mae'r polisi'n datgan '... pan ydynt yn cael eu defnyddio'n deg ac effeithiol, gallant [hwy] chwarae rôl bwysig ynghylch canfod ac atal troseddu ac ymladd terfysgaeth'.

---

[3] Pwerau Stopio a Chwilio: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg? HMIC, Llundain, 2013, www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/media/stop-and-search-powers-20130709.pdf

Mae'r polisi hefyd yn datgan bod y pwerau'n darparu modd i gadarnhau neu dawelu amheuon ynghylch unigolion heb ymarfer y pŵer i arestio ac, os ydynt yn cael eu defnyddio'n sensitif, maent yn debygol o gynyddu hyder y gymuned yn yr heddlu a gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau'r ofn o droseddu.

Fodd bynnag, ni wnaeth y polisi ddiffinio defnydd effeithiol a theg o'r pwerau ac ni wnaeth gynnig unrhyw gyfarwyddyd arbennig i swyddogion ar sut y gallent gynnal achlysuron stopio a chwilio'n effeithiol a theg.

## Argymhelliad 2 o 2013

> Dylai prif gwnstabliaid sefydlu, neu wella, y dull o fonitro'r ffordd mae swyddogion yn stopio a chwilio pobl fel y gallant fod yn fodlon bod eu swyddogion yn gweithredu yn unol â'r gyfraith (gan gynnwys deddfwriaeth gydraddoldeb a'r Cod Ymarfer) a bod y pŵer yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i atal troseddu, i ddal troseddwyr a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd. Dylai'r monitro hwn, yn arbennig, alluogi arweinwyr yr heddlu i sicrhau bod gan swyddogion y seiliau rhesymol (a, lle mae'n gymwys, bod gan swyddogion awdurdodi y gred resymol) sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gyfiawnhau pob achlysur o stopio a chwilio.

### Seiliau ar gyfer argymhelliad 2

Yn 2013, canfu HMIC mai ond ychydig iawn o luoedd oedd yn gallu arddangos bod y defnydd o bwerau stopio a chwilio wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio orau i gwtogi ar droseddu, a go brin roedd yn cael ei dargedu ar droseddau blaenoriaethol yn eu hardaloedd. Roedd lluoedd wedi lleihau faint o ddata a gasglwyd er mwyn mynd i'r afael â biwrocratiaeth, ond roedd hyn wedi gostwng eu gallu i ddeall effaith y defnydd o bwerau stopio a chwilio ar lefelau troseddu a hyder y gymuned. O'r 8,783 o gofnodion stopio a chwilio a archwiliwyd gan HMIC yn 2013, nid oedd 27 y cant yn cynnwys digon o seiliau rhesymol i gyfiawnhau'r defnydd cyfreithlon o'r pŵer.

### Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn ag argymhelliad 2

Fel y mwyafrif mawr o luoedd, mae Heddlu De Cymru'n casglu gwybodaeth ynghylch achlysuron stopio a chwilio fel mater o drefn.

Roedd yn galonogol inni ganfod nad oedd y llu bellach yn monitro swyddogion unigol ac na welwyd y defnydd o bwerau stopio a chwilio fel modd i fesur perfformiad.

Mae bwrdd stopio a chwilio'r llu, dan gadeiryddiaeth y prif gwnstabl cynorthwyol (Cymorth), yn cwrdd yn chwarterol er mwyn monitro cynnydd y camau gweithredu sy'n ofynnol ynghylch argymhellion 2013 HMIC. Bu'r bwrdd yn monitro cwynion oedd yn codi o achlysuron stopio a chwilio a hefyd ystyriwyd tueddiadau a phatrymau o'r data.

Digwyddodd monitro hefyd mewn ardaloedd plismona lleol lle cafodd tueddiadau lleol mewn data stopio a chwilio eu monitro. Ystyriodd  y monitro ond y nifer o achlysuron stopio a chwilio a wnaed a'r gyfradd arestio ond nid oedd yn cynnwys canlyniadau cadarnhaol eraill megis rhybuddiadau neu rybuddion canabis.

Mae bwrdd cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol y llu, fel rhan o'i gylch gwaith, yn monitro cymesuredd y defnydd o bwerau stopio a chwilio ynghylch ethnigrwydd, rhyw ac oedran.

Canfuom nad oedd gan y llu gofnodion digon manwl i allu penderfynu a oedd y defnydd o'i bwerau'n effeithiol a theg. Er enghraifft, rhwng 1 Tachwedd 2013 a 31 Hydref 2014, o'r 18,540 o achlysuron stopio a chwilio a gofnodwyd, nid oedd 998 yn cynnwys manylion ynghylch a oedd yr unigolyn yn wryw neu fenyw.

Roeddem yn siomedig i ganfod nad oedd y llu'n mynnu bod ei swyddogion yn cofnodi a oeddynt wedi dod o hyd i'r eitem y chwiliwyd amdani, neu ryw eitem waharddedig arall. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw ddadansoddiad i nodi faint o weithiau roedd yr eitem y chwiliwyd amdani wedi'i darganfod, na'r nifer o weithiau roedd rhyw eitem waharddedig arall wedi'i darganfod. Byddai'r fath ddadansoddiad yn helpu'r llu i gadarnhau faint o weithiau roedd y seiliau ar gyfer y chwiliad wedi bod yn gywir a byddai'n helpu i benderfynu effeithiolrwydd y defnydd o'r pwerau.

Diweddarwyd y canlyniadau a gofnodwyd gan swyddogion ar y cofnod stopio a chwilio o ganlyniad i gynllun defnydd gorau o stopio a chwilio'r Swyddfa Gartref a hwy oedd:

- arestio;
- gwŷs;
- rhybuddiad;
- rhybudd ynghylch khat neu ganabis;
- Hysbysiad Cosb am Anhrefn;
- datrysiad cymuned; a
- dim camau gweithredu eraill.

Yn ei broses fonitro, ni wnaeth y llu wahaniaethu rhwng yr arestiadau hynny a wnaed oherwydd bod yr amheuon gwreiddiol yn gywir, yr arestiadau hynny a wnaed lle darganfuwyd eitem wahanol i'r un a amheuwyd, a'r arestiadau hynny a wnaed nad oedd yn gysylltiedig â'r amheuon gwreiddiol na darganfod eitem o gwbl. Mae hyn yn rhwystro gallu'r llu i benderfynu effeithiolrwydd y defnydd o'r pwerau.

Ar ben hynny, ni wnaeth y llu fonitro'r amlder roedd swyddogion yn defnyddio pwerau stopio a chwilio er mwyn cadarnhau a oedd swyddogion unigol yn eu gorddefnyddio.

Yn yr un modd, ni wnaeth y llu fonitro'r amlder roedd rhai pobl yn cael eu stopio a chwilio er mwyn asesu a oedd pobl yn cael eu targedu'n annheg.

Nid oedd unrhyw ddadansoddi i benderfynu a oedd pwerau stopio a chwilio wedi'u targedu ar feysydd o droseddu uchel, nac a gafodd eu defnydd unrhyw effaith ar gyfraddau troseddu.

Ni wnaeth y llu gasglu data ynghylch y gyfradd erlyn a chollfarnu oedd yn codi o achlysuron stopio a chwilio, gan gyfyngu ar ei allu i benderfynu defnydd effeithiol o'r pwerau.

Fel y mwyafrif o luoedd, roedd Heddlu De Cymru wedi cynnwys maes yn ei system gystodaeth i ddangos a oedd arestiad wedi digwydd o ganlyniad i achlysur o stopio a chwilio. Mae hyn yn helpu'r llu nid yn unig i gofnodi canlyniadau'n gywirach ond hefyd i asesu effeithiolrwydd a thegwch y defnydd o'r pwerau.

Roedd Heddlu De Cymru, megis pob llu arall, wedi dynodi uwch-reolwr i oruchwylio'r defnydd o bwerau stopio a chwilio.

Mae'r llu'n un o oddeutu chwarter yr holl luoedd nad ydynt yn archwilio'r defnydd o'r pwerau fel rhan o raglen archwilio drefnedig i wirio bod y chwiliadau stopio a chwilio wedi'u cynnal yn gyfreithlon.

Ni chofnododd y llu ddigon o wybodaeth ynghylch achlysuron stopio a chwilio i allu cynnal dadansoddiad ac roedd, o ganlyniad, diffyg o lywodraethu a goruchwylio ar lefel y llu o ddata manwl ynghylch stopio a chwilio. Mae hyn yn golygu nad oedd y llu'n gallu penderfynu'n llawn a oedd ei ddefnydd o'r pwerau'n effeithiol a theg.

## Argymhelliad 3 o 2013

> Dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod swyddogion sy'n cynnal achlysuron stopio a chwilio'n cael eu goruchwylio fel y gallant fod yn hyderus eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith a bod y pŵer yn cael ei ddefnyddio'n deg ac effeithiol. Dylid rhoi sylw arbennig i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer a deddfwriaeth gydraddoldeb.

**Seiliau ar gyfer argymhelliad 3**

Mae Cod A yn gosod rhwymedigaeth benodol ar oruchwylwyr i fonitro'r defnydd o stopio a chwilio er mwyn atal ei gamddefnyddio, ac yn cyfarwyddo:

- “rhaid i oruchwylwyr fonitro'r defnydd o bwerau stopio a chwilio a dylent ystyried, yn arbennig, a oes unrhyw dystiolaeth bod y pwerau'n cael eu hymarfer ar sail stereoteipiau neu gyffredinoliadau amhriodol;

- dylai goruchwylwyr ymfodloni bod ymarfer swyddogion o dan eu goruchwyliaeth yn y broses o stopio, chwilio a chofnodi'n cydymffurfio'n llawn â'r Cod; a
- yn ogystal â hyn rhaid i oruchwylwyr wirio a yw'r cofnodion yn datgelu unrhyw dueddiadau neu batrymau sy'n peri pryder ac, os felly, rhaid iddynt weithredu'n briodol er mwyn mynd i'r afael â hwy" [4]

Yn 2013, canfuom ond ychydig o dystiolaeth bod goruchwylwyr yn arsylwi ar eu cwnstabliaid wrth iddynt ddefnyddio pwerau stopio a chwilio. Roedd anghysondebau wrth gofnodi chwiliadau, tystiolaeth nad oedd pobl oedd yn cael eu chwilio'n derbyn yr wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Cod A bob tro a nad oeddynt yn cael eu trin yn deg bob tro.

**Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn ag argymhelliad 3**

Roeddem yn siomedig bod diffyg goruchwyliaeth briodol o'r defnydd o bwerau stopio a chwilio.

Yn wahanol i'r mwyafrif mawr o luoedd, nid oedd Heddlu De Cymru'n mynnu bod goruchwylwyr yn adolygu'r cofnod stopio a chwilio. Roedd y llu'n defnyddio dull electronig o gofnodi lle roedd swyddogion yn cofnodi manylion achlysuron stopio a chwilio ar derfynell ddata symudol a oedd yn creu cofnod electronig uniongyrchol. Fodd bynnag, nid oedd goruchwylwyr yn cael eu rhybuddio am bresenoldeb cofnod stopio a chwilio a mae'n debygol nad oeddynt yn ymwybodol bod un o'u swyddogion wedi cynnal achlysur o stopio a chwilio.

Nid oes cyfleuster i oruchwylwyr wirio'r cofnodion stopio a chwilio wrth edrych yn ôl er mwyn sicrhau bod y seiliau'n rhesymol. Dywedodd goruchwylwyr wrthym nad oedd ganddynt unrhyw syniad o ansawdd yr achlysuron stopio a chwilio a gynhaliwyd gan eu swyddogion oni bai y gallent arsylwi ar achlysuron. Fodd bynnag, fel mewn sawl llu arall, dywedodd goruchwylwyr wrthym nad oedd ganddynt ond ychydig o amser i batrolio gyda'u swyddogion a goruchwylio'r defnydd o bwerau stopio a chwilio'n weithredol ar y strydoedd. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan lawer o'r cwnstabliaid y buom yn siarad â hwy a gadarnhaodd eu bod yn derbyn ond ychydig o gyfarwyddyd ymarferol.

Cynhaliwyd, gan y staff yn yr uned gudd-wybodaeth, gwiriad o'r cofnodion wrth eu derbyn a byddent yn dychwelyd cofnodion diffygiol i oruchwylwyr i gynnal camau gweithredu pellach.

[4] Cod ymarfer diwygiedig ar gyfer yr ymarfer gan: *Swyddogion Heddlu o Bwerau Statudol i stopio a chwilio, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol* 1984, Llywodraeth EM, Rhagfyr 2014, Cod A, paragraff 5.1, www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/384122/PaceCodeAWeb.pdf.

Fodd bynnag, dywedodd swyddogion a goruchwylwyr wrthym mai pwrpas hwn fel arfer oedd cywiro data coll, yn hytrach na gwirio rhesymoldeb y seiliau.

Ychydig yn unig o oruchwyliaeth oedd yn digwydd naill ai o'r achlysuron eu hunain neu'r cofnodion canlynol. Mae'n debygol bod hyn yn groes i God A sy'n datgan:

> ‘Mae'n rhaid i swyddogion sy'n goruchwylio fonitro'r defnydd o bwerau stopio a chwilio a dylent ystyried, yn arbennig, a oes unrhyw dystiolaeth eu bod yn cael eu hymarfer ar sail delweddau wedi'u stereoteipio neu gyffredinoliadau amhriodol. Dylai swyddogion sy'n goruchwylio ymfodloni bod ymarfer swyddogion o dan eu goruchwyliaeth yn y broses o stopio, chwilio a chofnodi'n cydymffurfio'n llawn â'r Cod hwn. Yn ogystal â hyn rhaid i oruchwylwyr wirio a yw'r cofnodion yn datgelu unrhyw dueddiadau neu batrymau sy'n peri pryder ac, os felly, rhaid iddynt weithredu'n briodol er mwyn mynd i'r afael â hwn’.[5]

Cydnabuwyd hyn gan y Llu a bydd y cyflwyniad o ddyfeisiau llaw data symudol newydd yn sicrhau bod goruchwylwyr yn ymwybodol o unrhyw achlysuron stopio a chwilio mae eu staff wedi ymgymryd â hwy a thrwy hynny hwyluso eu sicrwydd ansawdd ohonynt.

## Argymhelliad 4 o 2013

> Dylai'r Coleg Plismona weithio gyda phrif gwnstabliaid i gynllunio gofynion hyfforddiant cenedlaethol er mwyn gwella'r canlynol ar gyfer swyddogion: dealltwriaeth o'r sail gyfreithiol ar gyfer eu defnydd o bwerau stopio a chwilio; sgiliau ynghylch sefydlu a chofnodi'r seiliau rhesymol sydd eu hangen ar gyfer amheuon; gwybodaeth o'r dull gorau i ddefnyddio'r pwerau er mwyn atal a chanfod troseddau; a dealltwriaeth o'r effaith y gall achlysuron stopio a chwilio ei chael ar hyder y gymuned ac ymddiriedaeth yn yr heddlu. Yn ogystal â hyn dylid addasu hyfforddiant penodol i oruchwylwyr ac arweinwyr y rhai hynny sy'n cynnal achlysuron stopio a chwilio.

### Seiliau ar gyfer argymhelliad 4

Yn 2013, canfuom bod hyfforddiant, lle roedd yn cael ei ddarparu, wedi'i ganolbwyntio'n gyfangwbl bron ar y gyfraith, y weithdrefn a diogelwch swyddogion a dim ond ychydig iawn ar yr hyn sy'n gweithio orau i ddal troseddwyr, neu sut y gall ymddygiad swyddogion effeithio ar y ffordd y profir yr achlysur gan yr unigolyn sy'n cael ei stopio a'i chwilio. Roeddem yn poeni mai ond ychydig oedd yn cael ei wneud gan luoedd i helpu swyddogion i ddeall sut y dylent farnu pryd mae ganddynt seiliau

---

[5] Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer yr Ymarfer gan: Swyddogion Heddlu o Bwerau Statudol i stopio a chwilio, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE), Llywodraeth EM, Rhagfyr 2014, Cod A,
www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/384108/2013PACEcodeA.pdf

rhesymol i stopio a chwilio, sut maent yn cyfathrebu'r seiliau hyn i'r unigolyn sy'n cael ei chwilio a sut maent yn eu cofnodi yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

Mae mynd i'r afael ag argymhelliad 4 yn dibynnu ar ddatblygu pecyn hyfforddiant cenedlaethol gan y Coleg Plismona.

## Argymhelliad 5 o 2013

> Dylai prif gwnstabliaid sicrhau ei fod yn ofynnol i swyddogion a goruchwylwyr sydd angen yr hyfforddiant hwn ei gwblhau ac y profir eu dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei ddysgu.

**Seiliau ar gyfer argymhelliad 5**

Yn 2013, canfuom bod goruchwylwyr yn cael ond ychydig neu ddim hyfforddiant o gwbl ynghylch sut i oruchwylio, neu i'w helpu i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Canfuom lawer o enghreifftiau o oruchwylwyr yn adolygu a llofnodi cofnodion stopio a chwilio lle roedd yn amlwg nad oeddynt yn cynnwys disgrifiad o seiliau rhesymol ar gyfer yr amheuon. Er enghraifft, ar un cofnod a lofnodwyd gan oruchwylydd, roedd y seiliau wedi'u cofnodi fel 'Wedi parcio mewn maes parcio anghysbell yn y tywyllwch'.

**Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn ag argymhelliad 5**

Mae mynd i'r afael ag argymhelliad 5 yn dibynnu ar ddatblygu pecyn hyfforddiant cenedlaethol nad yw ar gael eto (gweler argymhelliad 4 uchod).

Er gwaethaf absenoldeb pecyn hyfforddiant cenedlaethol, mae rhai lluoedd, gan gynnwys Heddlu De Cymru, wedi ceisio gwella hyfforddiant eu swyddogion ar y defnydd o bwerau stopio a chwilio.

Mae recriwtiaid newydd yn Heddlu De Cymru'n derbyn hyfforddiant ar bwerau stopio a chwilio fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol. Ar ben hynny, roedd swyddogion wedi mynd trwy becyn hyfforddiant cyfrifiadurol electronig, gyda 695 o gwnstabliaid a 95 o ringyllod oedd wedi'i gwblhau o fewn y 18 mis blaenorol. Fodd bynnag, canfuom bod y mwyafrif o swyddogion inni siarad â hwy'n ystyried bod hyfforddiant electronig yn llawer llai effeithiol nag hyfforddiant a gyflwynwyd wyneb yn wyneb.

Yn 2014, fel rhan o'i waith paratoi ar gyfer yr uwchgynhadledd NATO a gynhaliwyd yn Ne Cymru, fe wnaeth y llu ddarparu hyfforddiant ar ganfod ymddygiadol i rai o'i swyddogion, a oedd hefyd yn cynnwys canllawiau ar duedd anymwybodol. Mae'r llu wrthi'n darparu'r hyfforddiant hwn i'r holl swyddogion.

Mae swyddogion sy'n ymateb i alwadau gan y cyhoedd yn derbyn mewnbynnau o hyfforddiant bob 10 wythnos, a oedd yn cynnwys rhywfaint o gyfarwyddyd ar bwerau stopio a chwilio ac, mewn rhai ardaloedd plismona lleol ond nid y cyfan ohonynt, roedd hyfforddiant ychwanegol wedi'i roi i oruchwylwyr.

## Argymhelliad 6 o 2013

> Dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod cudd-wybodaeth berthnasol a geir o achlysuron stopio a chwilio'n cael ei chasglu, cael ei gosod ar systemau cudd-wybodaeth eu llu, ac yn cael ei dadansoddi er mwyn cynorthwyo'r ymdrech ehangach i frwydro yn erbyn troseddu.

**Seiliau ar gyfer argymhelliad 6**

Mae cudd-wybodaeth yn sgil-gynnyrch gwerthfawr o achlysuron stopio a chwilio. Fodd bynnag, yn 2013 roeddem yn synnu oherwydd mai ond ychydig o ymdrech a wnaed i fonitro pa mor effeithiol oedd y defnydd o bwerau stopio a chwilio'n i atal troseddu a dal troseddwyr. Dim ond pum llu oedd â maes cudd-wybodaeth ar eu cofnod stopio a chwilio, ac mewn wyth llu arall nodwyd ar y cofnod bod cyflwyniad cudd-wybodaeth wedi'i wneud ar wahân. Yn y lluoedd hynny oedd yn casglu cudd-wybodaeth, roedd dryswch ynghylch a oedd y cofnod stopio a chwilio'n gweithredu fel cyflwyniad awtomatig o gudd-wybodaeth neu a ddylid cyflwyno ffurflen gudd-wybodaeth ar wahân, a gwelsom dystiolaeth o oedi o ran gosod y gudd-wybodaeth ar systemau cyfrifiadurol.

Roedd hyn yn lleihau ansawdd y gudd-wybodaeth oedd ar gael i swyddogion. Dim ond ychydig iawn o luoedd oedd yn cynnal digon o waith dadansoddi i fapio lleoliadau achlysuron stopio a chwilio yn ôl troseddau a gofnodwyd, neu i gysylltu achlysuron stopio a chwilio ag erlyniadau a chollfarnau.

**Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn ag argymhelliad 6**

Roeddem yn falch o sylwi, yn wahanol i'r mwyafrif mawr o luoedd, bod Heddlu De Cymru'n trosglwyddo manylion ynghylch achlysuron stopio a chwilio fel mater o drefn i'w gronfa ddata gudd-wybodaeth ar yr adeg y cofnodwyd yr achlysur. Mae hyn yn caniatáu mynediad uniongyrchol i wybodaeth a chudd-wybodaeth ynghylch yr unigolyn sydd wedi'i stopio a'i chwilio, y dillad a wisgwyd, lleoliad, amser a dyddiad yr achlysur, a allai helpu o ran canfod troseddu.

Fodd bynnag, nid oedd y cofnod o achlysuron stopio a chwilio'n cynnwys maes lle gallai swyddogion gofnodi cudd-wybodaeth arall. Roedd y llu'n dibynnu ar swyddogion yn cyflwyno adroddiad cudd-wybodaeth ar wahân gydag unrhyw fanylion perthnasol. Nid oedd unrhyw beth i atgoffa swyddogion yn y polisi ar gyfer stopio a chwilio o'r pwysigrwydd o gasglu cudd-wybodaeth, a dim terfyn amser y dylai swyddogion ei gyflwyno yn ei erbyn. Mae'n bosibl y gallai gwerth cudd-wybodaeth gael ei leihau os yw cyflwyniadau'n hwyr.

Roedd dull electronig y llu o gofnodi achlysuron stopio a chwilio, trwy derfynell ddata symudol, wedi gwella cywirdeb ei leoliadau oedd wedi'u cofnodi, ac o ganlyniad, roedd cywirdeb y dadansoddi a mapio wedi gwella. Fodd bynnag, canfu'r llu fod hyn yn anghywir mewn rhai achosion ac roedd y llu wrthi'n amnewid y terfynellau data symudol presennol am gyfarpar gwell er mwyn gwella cywirdeb.

Yn debyg i oddeutu hanner y lluoedd, roedd Heddlu De Cymru'n mapio lleoliadau achlysuron stopio a chwilio ond heb eu hystyried wrth ochr lleoliadau troseddau oedd wedi'u cofnodi er mwyn ei helpu i ddeall sut y ffordd orau o atal troseddu.

## Argymhelliad 7 o 2013

> Dylai prif gwnstabliaid, wrth ymgynghori â chyrff plismona etholedig, sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer trwy egluro i'r cyhoedd y ffordd mae pwerau stopio a chwilio'n cael eu defnyddio yn eu hardaloedd a thrwy wneud trefniadau i gofnodion stopio a chwilio gael eu craffu gan gynrychiolwyr y gymuned. Dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n cynnwys y bobl hynny sy'n cael eu stopio a'u chwilio, er enghraifft, pobl ifanc.

**Seiliau ar gyfer argymhelliad 7**

Yn 2013, canfuom bod llai na hanner y lluoedd yn cydymffurfio â'r gofyniad yng Nghod A i wneud trefniadau i'r cyhoedd graffu'r defnydd o bwerau stopio a chwilio. Gan gydnabod y pwysigrwydd o ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd, mae'n syndod mai ond ychydig roedd lluoedd yn ymgynghori neu gyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch eu defnydd o bwerau stopio a chwilio.

Roedd bron i hanner y lluoedd yn gwneud dim byd i ddeall effaith pwerau stopio a chwilio ar eu cymunedau, gyda nifer fach iawn yn unig yn ceisio'n rhagweithiol i gael safbwyntiau'r bobl a chymunedau yr effeithiwyd arnynt fwyaf.

**Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn ag argymhelliad 7**

Roeddem yn siomedig iawn i sylwi nad oedd Heddlu De Cymru'n cyhoeddi unrhyw wybodaeth ar gyfer y cyhoedd ar ei wefan a allai helpu i egluro'r defnydd o bwerau stopio a chwilio yn ei ardal.[6] Fodd bynnag, roedd y llu wrthi'n adolygu ei wefan er mwyn sicrhau y darperir digon o wybodaeth ar dudalen we benodedig ar gyfer stopio a chwilio.

Roedd y llu wedi cyflwyno grŵp Hawliau Dynol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a oedd, fel rhan o'i gylch gwaith, yn adolygu data ynghylch y defnydd o bwerau stopio a chwilio. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn cynnwys adolygiad o gofnodion stopio a chwilio. Roedd grwpiau cydlyniant cymunedol mewn ardaloedd plismona lleol, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned a sefydliadau eraill, yn cwrdd yn chwarterol ac yn ystyried data stopio a chwilio ond roedd y rhain wedi'u cyfyngu i'r nifer o achlysuron stopio a chwilio a gynhaliwyd, y gyfradd arestio a data ynghylch cymesuredd.

Mae gan y llu gynllun 'reidio ynghyd' sydd ar agor i aelodau'r gymuned. Mae cyfleoedd i gymryd rhan yn y cynllun wedi'u hymestyn i aelodau'r grwpiau cydlyniant

[6] Ymchwil wefan wedi'i chynnal ym mis Mehefin 2015.

cymunedol, er nad yw llawer wedi cymryd rhan hyd yn hyn, yr hyn mae tîm y llu a'r comisiynydd heddlu a throseddu'n bwriadu mynd i'r afael ag ef. Yn ogystal â hyn roeddem yn siomedig i sylwi mai dim ond yn ddiweddar roedd y llu wedi dechrau ar waith i ddeall effaith y defnydd o bwerau stopio a chwilio ar ymddiriedaeth y cyhoedd. Roedd bwrdd stopio a chwilio wedi'i gyflwyno a oedd yn ystyried sut i gynnwys goruchwyliaeth o'r pwerau hyn gan y cyhoedd.

# Argymhelliad 8 o 2013

> Dylai prif gwnstabliaid sicrhau y gall y bobl hynny sy'n anfodlon ar y ffordd maent yn cael eu trin yn ystod achlysuron stopio a chwilio adrodd am hyn wrth y llu er mwyn i'w safbwyntiau gael eu hystyried ac, os ydynt yn ei ddymuno, gwneud cwy ffurfiol yn gyflym a rhwydd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch anfodlonrwydd a adroddir wrth asiantaethau eraill.

### Seiliau ar gyfer argymhelliad 8

Yn 2013, cynhaliwyd arolwg gennym o bobl oedd wedi cael eu stopio a'u chwilio[7]. O'r 391 o ymatebwyr, roedd gormod o achlysuron pan oedd pobl yn teimlo nad oedd yr heddlu wedi'u trin â pharch (47 y cant) neu nad oeddynt wedi gweithredu'n rhesymol (44 y cant). Dywedodd tri deg naw y cant fod eu profiad o gael eu stopio a'u chwilio wedi gostwng eu barn ar yr heddlu. O'r bobl hynny a ddywedodd eu bod yn anfodlon ar y ffordd iddynt gael eu trin gan yr heddlu yn ystod yr achlysur o stopio a chwilio, dim ond 16 y cant a wnaeth gwyn ffurfiol. Mynegodd llawer o'r rhai hynny na wnaethon nhw gwyno, pan ofynnwyd iddynt pam nad oeddynt wed gwneud hynny, ddiffyg ffydd yn y system gwynion.[8]

### Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn ag argymhelliad 8

Nid oedd Heddlu De Cymru'n casglu gwybodaeth yn weithredol am anfodlonrwydd yn perthyn i achlysuron stopio a chwilio; yn hytrach roedd yn ystyried y nifer o gwynion ffurfiol a wnaed fel arwydd o ba mor fodlon neu anfodlon roedd pobl yn teimlo ynghylch cael eu stopio a'u chwilio. Mae'r canlyniadau o'n harolwg cenedlaethol yn 2013 yn awgrymu mai ond ychydig iawn sy'n debygol o wneud cwyn ac argymhellom bod rhaid i luoedd achub y blaen a threfnu mesurau rhagweithiol i geisio barn pobl oedd wedi'u stopio a'u chwilio.

Er bod gwybodaeth enerig ar wefan y llu ynghylch gwneud cwyn, nid oedd y llu'n cyhoeddi unrhyw beth a oedd yn perthyn yn benodol i wneud cwyn neu nodi

---

[7] *Pwerau Stopio a Chwilio: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg*? HMIC, 2013, www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/media/stop-and-search-powers-20130709.pdf

[8] Safbwynt yr *IPCC ynghylch pwerau'r heddlu i stopio a chwilio*, IPCC, Mehefin 2009, www.ipcc.gov.uk/sites/default/files/Documents/guidelines_reports/stop_and_search_policy_position.pdf

anfodlonrwydd ar y defnydd o bwerau stopio a chwilio. Roedd y llu'n cynnwys ffurflen ymholi ar gyfer stopio a chwilio ar ei wefan. Fodd bynnag, roedd hon ond yn ffurflen i bobl a oedd wedi'u stopio a'u chwilio ofyn am gopi o'r cofnod. Yn ogystal â hyn roedd yn anodd dod o hyd iddi ar y wefan.[9]

Roedd y dderbynneb a roddid i bobl sydd wedi'u stopio a'u chwilio yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut i ofyn am gopi o'r cofnod ond nid oedd yn darparu unrhyw wybodaeth ynghylch sut i gwyno neu fwydo anfodlonrwydd yn ôl i'r llu. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd.

Canfuom nad oedd Heddlu De Cymru wedi cynnal dadansoddiad o gwynion a wnaed o ganlyniad i achlysuron stopio a chwilio oherwydd y niferoedd isel o gwynion mae'n eu cofnodi fel rhai sy'n torri ar God A. Fodd bynnag, roedd ganddo broses lle roedd yr adran safonau proffesiynol yn adolygu'r holl gwynion oedd yn tarddu o achlysuron stopio a chwilio.

Mae dibyniaeth o hyd ar niferoedd isel o gwynion i gyfiawnhau pam mae cyn lleied o waith wedi'i wneud i sefydlu pam mae pobl yn teimlo'n anfodlon ar y modd iddynt gael eu stopio a'u chwilio, ac i ddefnyddio'r wybodaeth honno i wella arferion ac i gryfhau ymddiriedaeth y cyhoedd. Roedd yn peri pryder inni i glywed, hyd yn oed gan swyddogion uchel iawn, bod y nifer isel o gwynion a wnaed (wyth cwyn wedi'u cofnodi fel rhai oedd yn torri ar God A mewn un flwyddyn) yn golygu bod y pwerau wedi'u defnyddio mewn ffordd deg, gymesur ac angenrheidiol.

Mae'n peri pryder nad oedd Heddlu De Cymru, yn debyg i luoedd eraill inni ymweld â hwy, yn ceisio gwybodaeth yn weithredol ynghylch anfodlonrwydd gan bobl oedd wedi'u stopio a'u chwilio trwy gyswllt dilynol neu drwy grwpiau cymunedol er mwyn gallu ei defnyddio i wella arfer.

## Argymhelliad 9 o 2013

> Dylai prif gwnstabliaid gyflwyno ffurflen a gytunir ar lefel genedlaethol (papur neu electronig) ar gyfer cofnodi achlysuron stopio a chwilio, yn unol â'r Cod Ymarfer.

### Seiliau ar gyfer argymhelliad 9

Yn 2013, canfuom bod amrywiaeth o ffurflenni'n cael eu defnyddio i gofnodi achlysuron stopio a chwilio gan luoedd. Roeddynt yn wahanol iawn o ran cynllun a'r math o fanylion i'w cofnodi. Roedd gan un llu bum ffurflen wahanol yn cylchredeg ar gyfer stopio a chwilio ar adeg ein harchwiliad.

[9] Ymchwil wefan wedi'i chynnal ym mis Mehefin 2015.

Mae'r argymhelliad yn galw am gytundeb gan yr holl brif gwnstabliaid yng Nghymru a Lloegr ac oherwydd hynny, nid yw'n argymhelliad i'w weithredu i Heddlu De Cymru'n unig.

## Argymhelliad 10 o 2013

> Dylai prif gwnstabliaid weithio gyda'u cyrff plismona etholedig i ddod o hyd i ffordd well o ddefnyddio technoleg i gofnodi gwybodaeth berthnasol ar achlysuron stopio a chwilio sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n datgelu pa mor effeithiol a theg mae'r pŵer yn cael ei ddefnyddio.

**Seiliau ar gyfer argymhelliad 10**

Canfu ein harchwiliad yn 2013 bod gan dechnoleg y potensial i wella'r defnydd effeithiol, cyfreithlon a theg o bwerau stopio a chwilio. Fodd bynnag, er bod nifer o ddatblygiadau diddorol, dim ond defnydd cyfyng oedd yn cael ei wneud o dechnoleg i gofnodi achlysuron stopio a chwilio pryd hynny.

**Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn ag argymhelliad 10**

Roedd yn galonogol inni sylwi bod Heddlu De Cymru wedi sicrhau bod yr holl achlysuron stopio a chwilio'n cael eu cofnodi ar derfynell ddata symudol, gan greu cofnod electronig uniongyrchol fel mater o drefn. Mae gan yr ymagwedd hon fuddion gan fod y cofnod yn cael ei drosglwyddo i'r system gyfrifiadurol ar unwaith a gall y staff yn yr uned gudd-wybodaeth ei weld.

Fodd bynnag, roedd yn peri pryder inni nad oedd y dull cofnodi electronig yn darparu cyfle i oruchwylwyr wirio'r cofnod ac, oherwydd problemau ynghylch cysylltedd, nid oedd yn darparu data cywir bob tro. Adroddodd y llu adrodd y gallai hyd at 30 y cant o'r data oddi ar y terfynellau data symudol fod yn anghywir. Roedd y rhain, a phroblemau eraill yn gysylltiedig â'r defnydd o'r terfynellau data symudol, wedi'u nodi gan y llu. O ganlyniad, ar adeg ein harchwiliad, roedd y llu wrthi'n cynnal prosiect mawr a anelwyd at dynnu ynghyd holl systemau data'r llu gyda therfynell ddata symudol newydd. Roedd y llu'n disgwyl y byddai hyn yn darparu gwybodaeth a data ddigon cynhwysfawr a chywir ynghylch defnydd y llu o bwerau stopio a chwilio. Mae'n debygol y bydd hyn yn helpu'r llu trwy ddarparu gwybodaeth a all nid yn unig benderfynu a yw'r ei defnydd o'r pwerau'n effeithiol a theg, ond hefyd a all hysbysu'r cyhoedd o sut mae'r pwerau'n cael eu defnyddio.

## Casgliadau ar gyfer Rhan 1

Ar adeg ein harchwiliad, roedd Heddlu De Cymru newydd adolygu ei bolisi stopio a chwilio'n ddiweddar ac yn ddiweddar iawn roedd wedi'i ailgyflwyno. Fodd bynnag, er bod y polisi'n darparu cyfarwyddyd i swyddogion ar y gweithdrefnau i'w mabwysiadu pan yn defnyddio'r pwerau a bod rhaid eu defnyddio'n 'gyfreithlon, teg, cyfrifol, â pharch am bobl, heb wahaniaethu anghyfreithlon ac yn unol â gofynion

deddfwriaethol', nid oedd y polisi'n diffinio defnydd effeithiol a theg o'r pwerau ac nid oedd yn cynnig unrhyw gyfarwyddyd neilltuol i swyddogion ar sut y gallent gynnal achlysuron stopio a chwilio'n effeithiol a theg.

Mae'n galonogol bod y llu'n cofnodi amrywiaeth o ganlyniadau sy'n deillio o achlysuron stopio a chwilio a allai ei helpu i asesu a yw'r pwerau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a theg. Fodd bynnag, mae'r diffyg gallu i gysylltu arestiad â dod o hyd i'r eitem y chwiliwyd amdani, neu ryw eitem waharddedig arall, yn golygu nad oedd y llu'n gallu asesu effeithiolrwydd na thegwch yn llawn.

Wrth fonitro'r defnydd o'r pwerau, roedd y llu'n defnyddio ystod o ddata ond roedd yn peri pryder ei fod yn ystyried bod arestiadau'n gadarnhaol, heb ystyried a ydynt yn gysylltiedig â dod o hyd i eitem.

Canfuwyd bod goruchwyliaeth o achlysuron stopio a chwilio ar lefel isel iawn ac nad oedd goruchwyliaeth o gofnodion stopio a chwilio'n bresennol o gwbl. Mae'r llu wrthi'n newid ei ddulliau cofnodi a allai fod o gymorth ynghylch goruchwyliaeth. Fodd bynnag, tan yr adeg honno, mae angen i'r llu sicrhau y goruchwylir cofnodion yn briodol.

Roedd y llu wedi gwneud ymdrechion i wella hyfforddiant swyddogion trwy becyn cyfrifiadurol electronig, yr hyn roedd y swyddogion bron i gyd wedi'i gwblhau. Roedd y llu wrthi'n darparu canfod ymddygiadol ac uned duedd anymwybodol ond o ran hyfforddiant wyneb yn wyneb ar y defnydd o bwerau stopio a chwilio, roedd yn well gan y llu aros nes bod pecyn hyfforddiant cenedlaethol y Coleg Plismona ar gael.

Roedd yn peri pryder inni nad oedd y llu'n cyhoeddi unrhyw wybodaeth ar y defnydd o bwerau stopio a chwilio ar ei wefan. Mae angen gwneud llawer mwy i ddarparu gwybodaeth a data cynhwysfawr, ystyrlon a hygyrch i'r cyhoedd.

Roedd y llu'n sicrhau bod y defnydd o'r pwerau'n cael ei graffu gan aelodau'r gymuned leol trwy'r grwpiau cydlyniant cymunedol; un ym mhob ardal blismona leol. Fodd bynnag, nid oedd y llu'n sicrhau bod cofnodion stopio a chwilio'n cael eu craffu gan gynrychiolwyr y gymuned.

Roedd yn siomedig sylwi nad oedd y llu wedi ceisio gwybodaeth yn rhagweithiol ynghylch anfodlonrwydd nac wedi datblygu dulliau i bobl ddarparu adborth os oeddynt yn teimlo'n anfodlon ar eu hachlysur stopio a chwilio fel y gellid gwella'r ffordd mae swyddogion yn defnyddio pwerau stopio a chwilio. Yn lle hynny, roedd dibyniaeth ar niferoedd isel o gwynion, yr hyn roedd y llu'n eu gweld ar gam fel tystiolaeth bod yr holl achlysuron stopio a chwilio'n cael eu cynnal yn deg a chymesur.

Fodd bynnag, roedd yn galonogol bod y llu wedi buddsoddi mewn technoleg, ar ffurf terfynellau data symudol, yn cynorthwyo ei swyddogion i gofnodi'r defnydd o bwerau stopio a chwilio'n haws, ac yn helpu'r llu i benderfynu a ydynt yn cael eu defnyddio'n

effeithiol a theg. Yn ogystal â hyn roedd yn galonogol, wedi nodi rhai problemau gyda'r dechnoleg, bod y llu'n ceisio atebion technolegol gwell yn weithredol.

## Rhan 2 - Pa mor effeithiol a theg mae Heddlu De Cymru'n defnyddio adran 163 Deddf Traffig Ffyrdd 1988?

Yn ogystal â gofyn i HMIC archwilio ymhellach ar y cynnydd roedd heddluoedd wedi'i wneud ers archwiliad 2013, comisiynodd yr Ysgrifennydd Cartref HMIC i:

> "Adolygu pwerau eraill y gall yr heddlu eu defnyddio i stopio pobl, megis adran 163 Deddf Traffig Ffyrdd 1988, er mwyn sefydlu eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol a theg."

### Pwerau i stopio cerbydau

Yn ein hadroddiad yn 2013, fe amlygom bod rhai pobl yn credu eu bod wedi'u stopio a'u chwilio pan, mewn gwirionedd, oeddynt wedi'u stopio ac roedd swyddog wedi siarad â hwy yn eu car o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd – heb i chwiliad ddigwydd[10].

Yng Nghymru a Lloegr, ymgorfforir pwerau swyddogion i stopio cerbydau yn adran 163 Deddf Traffig Ffyrdd 1988, sy'n datgan:

> "Mae'n rhaid i unigolyn sy'n gyrru cerbyd modur ar ffordd stopio'r cerbyd os bydd cwnstabl mewn iwnifform yn gofyn iddo wneud felly" [11]

Yn wahanol i bwerau stopio a chwilio sy'n amodol ar ofynion Cod Ymarfer statudol[12], nid yw'r pŵer hwn yn mynnu bod gan swyddog unrhyw reswm arbennig i stopio cerbyd modur ac nid oes gofyniad i'r swyddog egluro pam mae ef neu hi wedi ei stopio.

[10] Pwerau Stopio a Chwilio: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg? HMIC, Gorffennaf 2013, tudalen 18, www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/media/stop-and-search-powers-20130709.pdf

[11] Deddf Traffig Ffyrdd *1988* a.163, www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/52/section/163

[12] Cod ymarfer diwygiedig ar gyfer yr ymarfer gan*: Swyddogion yr Heddlu o Bwerau Statudol stopio a chwilio, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth* Droseddol 1984, Llywodraeth EM, Rhagfyr 2014, Cod A www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/384122/PaceCodeAWeb.pdf

## Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn â'r defnydd o adran 163 Deddf Traffig Ffyrdd 1988

Er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud i ddeall pa mor dda roedd swyddogion yn defnyddio pwerau stopio a chwilio, roedd llawer llai wedi'i wneud i ddeall pa mor dda roeddynt yn defnyddio'r pŵer yn y Ddeddf Traffig Ffyrdd i stopio cerbydau.

Nid oedd gan y llu bolisi ar ddefnydd y pŵer yn y Ddeddf Traffig Ffyrdd ac nid oedd yn ofynnol i swyddogion gofnodi eu defnydd o'r pŵer. Nid yw hyn yn golygu nad yw swyddogion unigol byth yn cofnodi'r achlysuron hyn. O'n cyfweliadau â swyddogion, canfuom, yn ychwanegol i'r achlysuron hynny nas cofnodwyd, weithiau roedd y defnydd o'r pŵer hwn yn cael ei gofnodi mewn llyfr nodiadau poced, ar hysbysiad cosb benodedig lle cyhoeddwyd un neu ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu os oedd y swyddog wedi cynnal gwiriad ar yr unigolyn neu gerbyd dan sylw. Fodd bynnag, canfuom, ar yr achlysuron hynny pan gofnodwyd digwyddiad, iddo gael ei wneud mewn modd ad hoc ac nid yn ôl unrhyw system arbennig a allai ganiatáu goruchwyliaeth effeithiol o ddefnydd y pŵer.

Oherwydd absenoldeb gofynion cofnodi, ni ddigwyddodd goruchwyliaeth o ddefnydd y pŵer ac ni all y llu gynnal gwaith i ddeall a yw'r pŵer yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a theg, na sut mae defnydd o'r pŵer yn effeithio ar ymddiriedaeth y cyhoedd. Fel y mwyafrif o luoedd, nid oedd Heddlu De Cymru wedi dynodi uwch-reolwr i oruchwylio defnydd y pŵer.

Fodd bynnag, darperir rhywfaint o hyfforddiant ar ddefnyddio'r pŵer i swyddogion wrth eu recriwtio ar y cychwyn a darperir hyfforddiant pellach, gan gynnwys cyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio'r pŵer yn deg, ar gyfer swyddogion sy'n arbenigo mewn plismona ffyrdd.

## Pa mor effeithiol a theg mae swyddogion cymorth cymunedol yr Heddlu'n defnyddio eu pwerau i chwilio am ac ymafael mewn alcohol a thybaco?

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 yn galluogi lluoedd i ddynodi swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (PCSOs) â'r pŵer i ymafael mewn alcohol oddi ar unrhyw unigolyn maent yn amau'n rhesymol eu bod yn meddu ar alcohol, sydd o dan 18 oed a mewn man cyhoeddus neu fan mae'r unigolyn wedi cael mynediad anghyfreithlon iddo[13]. Yn ogystal â hyn mae'n caniatáu i luoedd ddynodi PCSOs â'r pŵer i ymafael mewn tybaco unrhyw unigolyn o dan 16 oed maent yn canfod eu bod yn smygu mewn man cyhoeddus[14]. Er mwyn ymarfer y pwerau hyn yn effeithiol, mae Deddf Diwygio'r Heddlu'n darparu'r pŵer i PCSOs chwilio am yr eitemau os ydynt yn credu'n rhesymol bod yr unigolyn yn meddu arnynt[15]. Mae gan brif gwnstabliaid ddewis a ydynt yn dynodi'r pwerau hyn i'w PCSOs.

Gofynnodd HMIC i'r holl luoedd ddarparu hunan-asesiad o'u defnydd o bwerau Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 i sefydlu a oeddynt yn gwneud defnydd effeithiol a theg o'r rhain. Buom yn ymgymryd â phrofi pellach yn y maes hwn tra'n cynnal gwaith maes yn y naw llu a ddewiswyd ar gyfer yr archwiliad.

Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn â'r defnydd o bwerau o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Canfuom bod y prif gwnstabl a'r comisiynydd heddlu a throseddu ar y cyd wedi gwneud penderfyniad i beidio â dynodi eu PCSOs â'r pŵer i stopio ac ymafael naill ai mewn alcohol neu dybaco. Gwnaed y penderfyniad er mwyn sicrhau y gallai PCSOs ganolbwyntio ar eu rôl graidd o ymgysylltu â'r cyhoedd. Felly, nid oedd gan y llu bolisi ynghylch ymafael mewn alcohol ac ymafael mewn tybaco.

Roedd yr holl PCSOs inni siarad â hwy'n gwbl ymwybodol o ddiffyg eu pwerau ynghylch ymafael mewn alcohol a thybaco ac roeddynt i gyd yn cefnogi'r ymagwedd, gan ein hysbysu eu bod yn teimlo y byddai'u perthynas â'r cyhoedd yn cael ei niweidio'n anffafriol pe byddent yn chwilio am ac ymafael mewn alcohol a thybaco.

---

[13] Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, Atodlen 4, Pwerau y gellir eu hymarfer gan sifiliaid yr heddlu, Rhan 1, Swyddogion Cymorth Cymunedol, paragraff 6 www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/30/schedule/4

[14] Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, Atodlen 4, Pwerau y gellir eu hymarfer gan sifiliaid yr heddlu, Rhan 1, Swyddogion Cymorth Cymunedol, paragraff 7 www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/30/schedule/4

[15] Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, Atodlen 4, Pwerau y gellir eu hymarfer gan sifiliaid yr heddlu, Rhan 1, Swyddogion Cymorth Cymunedol, paragraff 7A www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/30/schedule/4

## Casgliadau ar gyfer Rhan 2

Yn Rhan 2 yr archwiliad hwn, canfuom nad oedd PCSOs Heddlu De Cymru'n defnyddio pwerau Deddf Diwygio'r Heddlu i ymafael mewn alcohol a thybaco yn dilyn penderfyniad polisi gan y prif gwnstabl a'r comisiynydd heddlu a throseddu.

Oherwydd absenoldeb cofnodion, nid oeddem yn gallu asesu pa mor effeithiol a theg mae swyddogion yn y llu'n defnyddio'r pŵer yn y Ddeddf Traffig Ffyrdd i stopio cerbydau.

Yn ogystal â hyn, yn wahanol i'r sefyllfa gyda stopio a chwilio, nid oedd gan y llu bolisïau sy'n cyfarwyddo swyddogion ar sut i ddefnyddio'r pŵer yn y Ddeddf Traffig Ffyrdd.

Mae'r absenoldeb o ddata dibynadwy ynghylch defnyddio'r pŵer yn y Ddeddf Traffig Ffyrdd yn golygu na all y llu arddangos ei fod yn defnyddio'r pwerau hyn yn effeithiol a theg.

Yn ein hadroddiad 'Pwerau Stopio a Chwilio 2: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg'[16], gwnaethom argymhellion i'r holl luoedd ynghylch y defnydd o'r pwerau hyn.

[16] *Pwerau Stopio a Chwilio 2: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a th*eg? HMIC, 2015, Llundain, HMSO. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

## Rhan 3 - Chwiliadau'n cynnwys tynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig

Fel rhan o'r archwiliad hwn, comisiynwyd HMIC gan yr Ysgrifennydd Cartref i archwilio'r defnydd o bwerau'n cynnwys tynnu mwy na dillad allanol unigolyn, gan gynnwys chwiliadau tynnu dillad, er mwyn nodi a yw'r chwiliadau hyn yn gyfreithlon, angenrheidiol a phriodol.

Mae Cod A[17] yn hysbysu swyddogion o sut i gynnal achlysuron stopio a chwilio, ac yn gwneud gwahaniaethau penodol ynghylch pa ddillad y gellir eu tynnu a ble all chwiliadau ddigwydd. Mae'r darnau dilynol o God A yn disgrifio'r hyn y gellir ac na ellir ei wneud mewn cysylltiad â thynnu dillad yn ystod chwiliad.

- "Nid oes unrhyw bŵer i fynnu bod unigolyn yn tynnu unrhyw ddillad yn gyhoeddus heblaw am got allanol, siaced neu fenig, ac eithrio o dan adran 60AA y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (sy'n grymuso cwnstabl i fynnu bod unigolyn yn tynnu unrhyw eitem a wisgir i guddio hunaniaeth)." [18]

- "Lle, ar seiliau rhesymol, ystyrir bod angen cynnal chwiliad mwy trwyadl (e.e. trwy fynnu bod unigolyn yn tynnu crys-T), rhaid gwneud hyn allan o olwg y cyhoedd, er enghraifft, mewn fan heddlu oni bai fod paragraff 3.7 yn gymwys, neu mewn gorsaf heddlu os oes un gerllaw. Gellir gwneud unrhyw chwiliad yn cynnwys tynnu mwy na chot allanol, siaced, menig, gwisg pen neu esgidiau, neu unrhyw eitem arall sy'n cuddio hunaniaeth, gan swyddog o'r un rhyw â'r unigolyn sy'n cael ei chwilio'n unig, ac ni ellir ei wneud ym mhresenoldeb unrhyw un o'r rhyw arall oni bai bod yr unigolyn sy'n cael ei chwilio'n gofyn yn bendant amdano." [19]

---

[17] Cod ymarfer diwygiedig ar gyfer yr ymarfer gan: *Swyddogion Heddlu o Bwerau Statudol o stopio a chwilio, Deddf yr Heddlu a Tystiolaeth Droseddol 1984, Llywodraeth EM,* Rhagfyr 2014, Cod A, www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/384122/PaceCodeAWeb.pdf

[18] Cod ymarfer diwygiedig ar gyfer yr ymarfer gan: Swyddogion Heddlu o Bwerau Statudol o stopio a chwilio, Deddf yr Heddlu a Tystiolaeth Droseddol 1984, Llywodraeth EM, Rhagfyr 2014, Cod A, paragraff 3.5, www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/384122/PaceCodeAWeb.pdf

[19] Cod ymarfer diwygiedig ar gyfer yr ymarfer gan: Swyddogion Heddlu o Bwerau Statudol o stopio a chwilio, Deddf yr Heddlu a Tystiolaeth Droseddol 1984, Llywodraeth EM, Rhagfyr 2014, Cod A, paragraff 3.6, www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/384122/PaceCodeAWeb.pdf

- “Rhaid peidio â chynnal chwiliadau'n cynnwys datguddio rhannau preifat o'r corff fel estyniad awtomatig o chwiliad llai trwyadl, dim ond oherwydd na ddaethpwyd o hyd i rywbeth yn y chwiliad cychwynnol. Gellir cynnal chwiliadau'n cynnwys datguddio rhannau preifat o'r corff dim ond mewn gorsaf heddlu gerllaw neu mewn lleoliad arall gerllaw sydd allan o olwg y cyhoedd (ond nid mewn cerbyd heddlu).[20]

I bob pwrpas, mae Cod A yn pennu tair lefel o chwilio a nodweddir gan lefel gynyddol eu natur ymwthiol:

- Chwiliad nad yw'n cynnwys tynnu dillad heblaw am got allanol, siaced neu fenig;
- Chwiliad yn cynnwys tynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig ond heb ddatguddio rhannau preifat o'r corff; a
- Chwiliad yn cynnwys tynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig sy'n datguddio rhannau preifat o'r corff, y cyfeirir ato'n aml fel chwiliad tynnu dillad.

Er bod y cod yn datgan bod pŵer i fynnu bod unigolyn yn tynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig allan o olwg y cyhoedd yn unig, mae'r nodiadau ategol o gyfarwyddyd yn darparu'r cyfle i'r swyddog ofyn i'r unigolyn dynnu mwy na'r dillad hynny o fewn golwg y cyhoedd yn wirfoddol.[21] Fodd bynnag, nid yw'n rhoi unrhyw gyfarwyddyd pellach ar sut y dylid cynnal hwn.

Canfyddiadau ynghylch Heddlu De Cymru ynglŷn ag achlysuron stopio a chwilio'n galw am dynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig

Er bod gan Heddlu De Cymru, yn gyffredin â'r mwyafrif o luoedd eraill, bolisi penodol ynghylch y defnydd o bwerau stopio a chwilio, nid oedd yn darparu canllawiau ynghylch achlysuron stopio a chwilio lle mae angen tynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig unigolyn (gan gynnwys chwiliadau tynnu dillad lle datguddir rhannau preifat o'r corff).

Roeddem yn siomedig i sylwi nad oedd swyddogion yn cofnodi a oedd pob achlysur stopio a chwilio'n cynnwys tynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig. Pan ofynnwyd am ddarparu gwybodaeth ynghylch y fath chwiliadau, nid oedd y llu'n gallu rhoi gwybod inni faint oedd wedi'u cynnal.

---

[20] Cod ymarfer diwygiedig ar gyfer yr ymarfer gan: Swyddogion Heddlu o Bwerau Statudol o stopio a chwilio, Deddf yr Heddlu a Tystiolaeth Droseddol 1984, Llywodraeth EM, Rhagfyr 2014, Cod A paragraff, 3.7, www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/384122/PaceCodeAWeb.pdf.

[21] Cod ymarfer diwygiedig ar gyfer yr ymarfer gan: Swyddogion Heddlu o Bwerau Statudol o stopio a chwilio, Deddf yr Heddlu a Tystiolaeth Droseddol 1984, Llywodraeth EM, Rhagfyr 2014, Cod A, nodiadau o gyfarwyddyd ar gofnodi, www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/384122/PaceCodeAWeb.pdf.

O ganlyniad, nid oedd y llu'n gallu sefydlu pa mor aml mae swyddogion yn cynnal y chwiliadau mwy ymwthiol hyn ar y stryd ac ni all adrodd am faint, ble ac o dan pa amodau roedd chwiliadau tynnu dillad wedi'u cynnal. Fodd bynnag, mae'r llu'n bwriadu y bydd y terfynellau data symudol newydd, pan gânt eu cyflwyno, yn cynnwys y gallu i gofnodi manylion ynghylch achlysuron stopio a chwilio'n cynnwys tynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig.

O ganlyniad i ddiffyg canllawiau ar y pwnc hwn, canfuom ddryswch cyffredinol ymhlith swyddogion ynghylch yr hyn mae'n ofynnol iddynt ei wneud, a'i gofnodi, pan ydynt yn cynnal chwiliad sy'n galw am dynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig, yn arbennig ynghylch y fath chwiliadau oedd yn cynnwys datguddio rhannau preifat o'r corff. Ar y cyfan, awgrymodd y swyddogion y buom yn siarad â hwy y byddai'r fath chwiliadau'n cael eu cynnal mewn gorsaf heddlu, mewn ystafell naill ochr o ganolfan gystodaeth, ond heb gael eu goruchwylio gan ringyll y ddalfa. Er bod cyfleuster ar y cofnod stopio a chwilio i gofnodi gwybodaeth ychwanegol lle gellid cynnwys manylion ynghylch tynnu dillad, nid oedd y fath gyfarwyddyd na chanllawiau wedi'u rhoi i swyddogion.

Felly, nid oedd gan uwchswyddogion wybodaeth na goruchwyliaeth o'r chwiliadau mwy ymwthiol a gynhelid gan eu swyddogion. Mae'n peri pryder i ni nad yw arweinwyr swyddogion sy'n defnyddio pwerau stopio a chwilio'n gwybod, fel mater o drefn, pa mor aml mae eu swyddogion yn cynnal, neu wedi cynnal, chwiliadau mwy ymwthiol, gan gynnwys chwiliadau tynnu dillad.

## Casgliadau ar gyfer Rhan 3

Mae pŵer swyddog heddlu i stopio aelod o'r cyhoedd yn y stryd a'u chwilio'n un ymwthiol. Mae'r gallu i dynnu dillad sy'n datguddio rhannau preifat corff unigolyn yn eithafol o ymwthiol.

Roeddem yn siomedig nad oedd Heddlu De Cymru'n gallu nodi'r achlysuron stopio a chwilio oedd yn cynnwys tynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig.

Byddem yn disgwyl i'r lefel o graffu sy'n digwydd ar achlysuron stopio a chwilio gynyddu yn unol â lefel yr ymwthio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir yn Heddlu De Cymru. Ni wnaeth y llu gynnal mwy o graffu ar y chwiliadau ymwthiol iawn hyn nag oedd yn ei gynnal ar gyfer chwiliadau nad oeddynt yn cynnwys tynnu'r fath ddillad.

Nid yw'r diffyg cyfredol o graffu ychwanegol ar y mathau hyn o achlysuron stopio a chwilio'n caniatáu i'r llu sicrhau nad yw hawliau unigolyn yn cael eu torri'n ddifrifol. Yn ogystal â hyn, nid yw'n darparu unrhyw allu i'r llu nodi swyddogion a allai fod angen hyfforddiant, cyngor neu ddisgyblaeth ychwanegol.

Mae'n peri pryder inni nad oedd canllawiau wedi'u darparu i swyddogion ar yr achlysuron hynny sy'n galw am dynnu mwy na chot allanol, siaced neu fenig.

Yn ein hadroddiad *Pwerau Stopio a Chwilio 2: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg?* fe wnaethom argymhellion i'r holl luoedd ynghylch achlysuron stopio a chwilio'n cynnwys mwy na chot allanol, siaced neu fenig[22].

[22] *Pwerau Stopio a Chwilio 2: A yw'r heddlu'n eu defnyddio'n effeithiol a theg?* HMIC, 2015, Llundain, HMSO. Ar gael gan www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic